cyfrifiad
2021

# Helpu pawb i gymryd rhan yng Nghyfrifiad 2021

Caiff y cyfrifiad ei gynnal ym mis Mawrth 2021.

Drwy gymryd rhan ac annog pobl eraill i wneud yr un peth, byddwch yn helpu i wneud yn siŵr eich bod chi a’ch cymuned yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnoch.

Swyddfa Ystadegau Gwladol

www.cyfrifiad.gov.uk

ELA2W

# Beth yw'r cyfrifiad?

Arolwg sy'n digwydd unwaith bob 10 mlynedd yw'r cyfrifiad ac mae'n rhoi darlun i ni o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr.

Mae cynghorau lleol, elusennau a llawer o sefydliadau eraill yn defnyddio gwybodaeth o'r cyfrifiad i benderfynu sut i wario biliynau o bunnau ar wasanaethau bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gwariant ar drafnidiaeth, addysg a gofal iechyd.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod yr arian hwn yn cael ei wario lle mae ei angen fwyaf, mae'n bwysig bod y cyfrifiad yn cyfrif pawb.





# Mae eich cymorth yn bwysig

Rydym yn deall bod meithrin cydberthnasau da â chymunedau yn golygu y bydd mwy o bobl am gymryd rhan yn y cyfrifiad.

Rydym hefyd yn deall nad oes unrhyw un yn adnabod eich cymuned cystal â chi. Bydd cymorth gan arweinwyr lleol a chynrychiolwyr cymunedol dibynadwy yn hollbwysig wrth helpu pobl i gymryd rhan.

# Datblygu cysylltiadau cymunedol

Mae angen eich help arnom ni i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf posibl ar gyfer Cyfrifiad 2021.

Bydd ein staff ymgysylltu â chymunedau lleol wrth law drwy gydol y cyfrifiad gydag adnoddau, cyngor a chymorth ymarferol sy'n helpu pawb i gymryd rhan.



# Gwybodaeth

Mae gennych ddealltwriaeth unigryw o fuddiannau eich cymuned a'r heriau mae'n eu hwynebu. Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi i gynllunio cymorth sy'n helpu pawb i gymryd rhan.

# Ymwybyddiaeth

Gall eich cysylltiadau cymunedol ein helpu ni i ledaenu'r neges am beth yw'r cyfrifiad a pham ei fod yn bwysig i bawb. Bydd hyn yn meithrin ymddiriedaeth yn y cyfrifiad ac yn cynyddu cefnogaeth.

# Mynediad

Gall eich rhwydweithiau ein helpu ni i gyrraedd pobl yn eich cymuned y mae angen cymorth arnynt i gymryd rhan. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnwys.

# Dysgwch fwy

Dysgwch fwy am gydweithio i gefnogi eich cymuned.

Darllenwch fwy am y cyfrifiad yn www.cyfrifiad.gov.uk

Dilynwch y cyfrifiad yn **@Cyfrifiad2021**

